# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (COUNCIL CHAMBER - PORT TALBOT CIVIC CENTRE)

| <u>**Aelodau'n bresennol:**</u> | <u>**Dydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2019**</u> |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, J.Griffiths, R.MacGregor, J.Burden a/ac T.Davies |

---

1. <u>**COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**</u>

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2019.

2. <u>**GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**</u>

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. <u>**CAIS RHIF P2019/5543 - PARC HADAU**</u>

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (caniatâd cynllunio llawn ar gyfer datblygiad arfaethedig 35 o gartrefi di-garbon ac adeilad cymunedol ynghyd â'r gwaith cysylltiedig, gan gynnwys tirlunio, parcio, mynediad, gwaith peirianneg a gwaith lliniaru ecolegol ym Mharc Hadau, tir yn Waun Sterw, Rhyd-y-fro, Pontardawe) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â'r Protocol Siarad Cyhoeddus a gymeradwywyd gan y cyngor, roedd yr asiant wedi annerch y Pwyllgor Cynllunio.

Roedd aelod y ward lleol hefyd yno i roi ei datganiadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5543, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac yn dilyn y geiriau diwygiedig yn amodau 5 a 7 a ddarparwyd yn y daflen diwygiadau a ddosbarthwyd.

## 4. APELIADAU A DDERBYNIWYD - 18 TACHWEDD I 9 RHAGFYR 2019

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r Apeliadau Cynllunio canlynol a dderbyniwyd, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl: A2019/5006

Cymynu 1 x Ffawydden Goprog a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed rhif T229/T1 yn 17 Brynawel, Pontardawe SA8 4JP.

## 5. PENDERFYNIAD APÊL - 18 TACHWEDD I 9 RHAGFYR 2019

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r apêl ganlynol y penderfynwyd arni, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl. A2019/5005

Estyniad unllawr ar gyfer storfa yn 5 Stryd y Frenhines, Glyncorrwg SA13 3BL.

Penderfyniad:

Gwrthod yr apêl

6. **<u>PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 18 TACHWEDD I 9 RHAGFYR 2019</u>**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 18 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2019, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**